Cyngor Dinas Casnewydd

Hysbysiad Preifatrwydd

Gwasanaeth a manylion cyswllt	
Gwasanaeth:	Gwasanaethau Plant
Manylion cyswllt:	Children.duty@newport.gov.uk / 01633 656656
Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:	Gwasanaethau Plant

Ffynhonnell gwybodaeth a chategorïau o wybodaeth yn cael eu prosesu

Mae'r adran hon ond yn berthnasol os yw data personol wedi'i gael gan ffynhonnell ond chi eich hun (gwrthrych y data).

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi cael y categorïau canlynol o'ch data personol:

Er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch diogelwch a lles plentyn neu berson ifanc, mae Gwasanaethau PlantCyngor Dinas Casnewydd, yn gweithio'n agos gydag asiantaethau partner allweddol i ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth addas.

Mae'n angenrheidiol i ni gasglu a chadw gwybodaeth bersonol a allai fod yn berthnasol i chi, eich teulu ac unrhyw bobl eraill yn eich cartref. Gallai'r data hwn gynnwys y canlynol:

* Gwybodaeth bersonol fel enw, dyddiad geni, rhyw, dynodwr GIG (lle bo'n berthnasol), rhif disgybl unigryw (lle bo'n berthnasol), cyfeiriad, rhif ffôn
* Gwybodaeth sensitif, berthnasol fel grŵp ethnig, statws anabledd, crefydd, statws priodasol, troseddau (gan gynnwys troseddau honedig), cofnod troseddol, a gwybodaeth iechyd arall (gan gynnwys iechyd a gallu meddyliol, defnydd o sylweddau), statws cyflogaeth, statws mewnfudo
* Gwybodaeth bersonol rhieni biolegol, gofalwyr, aelodau'r teulu a phobl eraill arwyddocaol
* Cyswllt yr ydym wedi ei gael gyda chi (h.y. cyfranogiad blaenorol gan y Gwasanaethau Cymdeithasol) a chyswllt yr ydych wedi ei gael ag unrhyw ardaloedd awdurdod eraill yr oeddech yn byw ynddynt o bosibl
* Asesiadau, cynlluniau, gohebiaeth amdanoch chi, eich teulu a'r rhai sy'n byw yn eich cartref, wedi'u hysgrifennu gennym ni a'u darparu gan asiantaethau trydydd parti
* Gwybodaeth am eich lles, eich canlyniadau personol a'ch nodau.

Rydym wedi cael eich gwybodaeth gan:

Os byddwn yn derbyn atgyfeiriad, gall hyn fod naill ai gan unigolyn neu asiantaeth.

Gall asiantaethau partner allweddol gynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol, yr heddlu, sefydliadau addysgol, gwasanaethau eirioli, sefydliadau gwirfoddol ac unrhyw sefydliad arall rydych yn ymwneud ag ef ar hyn o bryd neu wedi ymwneud ag ef yn hanesyddol

Diben a sail gyfreithiol dros ddefnyddio eich gwybodaeth

Yma, byddwn yn egluro ein rheswm dros gasglu eich data personol a'r rhesymau dros brosesu.

Ein sail gyfreithiol dros brosesu eich gwybodaeth:

Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i brosesu eich gwybodaeth bersonol

Mwy o fanylion am ein sail gyfreithiol dros ddefnyddio eich gwybodaeth a diben prosesu:

Rydym yn casglu ac yn prosesu gwybodaeth am blant a theuluoedd sy'n cael eu cyfeirio atom ac yn casglu gwybodaeth fel rhan o'n proses asesu a ddefnyddir i benderfynu ar ofal a chymorth priodol ac i wella a chynllunio ein gwasanaethau.
Cwmpesir y rhwymedigaeth gyfreithiol statudol gan y Ddeddf Plant (1989), Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2008) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (2014).

Yr hawl i dynnu caniatâd yn ôl

Os ydym yn dibynnu ar eich caniatâd i brosesu eich data, mae gennych hawl i dynnu eich caniatâd i'r prosesu hwn yn ôl ar unrhyw adeg. I wneud hyn, cysylltwch â'r person a enwir ar ben yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

(Dim ond yn berthnasol i brosesu ar sail caniatâd)

Rhaid i chi roi'r wybodaeth y mae ei hangen arnom i ddarparu'r gwasanaeth i ni, os oes naill ai:

a) Ymrwymiad contract i wneud felly, neu
b) Ymrwymiad statudol i wneud felly.

(Dim ond yn berthnasol os mai cyflawni contract neu ddyletswydd/tasg Cyhoeddus yw'r sail gyfreithiol dros broses).

Mae canlyniadau peidio â rhoi gwybodaeth fel a ganlyn:

Os na chyflwynwch eich gwybodaeth i ni, ni fydd modd i ni roi gwybodaeth, cyngor a chymorth priodol i chi.

Data Categori Arbennig

(Dim ond yn berthnasol os mai data categori arbennig sy'n cael ei brosesu)

Weithiau rydym yn prosesu categori arbennig a ddiogelir yn fwy dan y Ddeddf Diogelu Data. Y rheswm am hyn yw y ystyrir bod data categori arbennig yn fwy sensitif. Os ydym yn prosesu eich data categori yna mae angen i ni sefydlu sail gyfreithiol bellach dros brosesu, ac rydym wedi tynnu sylw at hyn isod:

Mae diddordeb cyhoeddus sylweddol

Mae data categori arbennig yn trafod hil, tras ethnig, gwleidyddiaeth, crefydd, aelodaeth o undeb llafur, geneteg, biometreg, iechyd, bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol unigolyn. Mae'n debygol y byddwn yn prosesu'r data hwn sy'n berthnasol i'ch iechyd a'ch hanes meddygol a daw budd cyhoeddus sylweddol o wneud hyn. Bydd prosesu'r data yn gymesur â'r nod a bydd yn parchu hanfod yr hawl i gael diogelu eich data. Byddwn yn sicrhau mesurau addas a phenodol i ddiogelu eich hawliau a buddion sylfaenol.

Penderfynu awtomataidd/proffilio

(Dim ond yn berthnasol os ydym yn gwneud penderfyniad awtomataidd ar wrthrych data)

Weithiau rydym yn defnyddio cyfrifiaduron neu dechnoleg i'n helpu ni i wneud penderfyniadau ar y gwasanaeth rydym yn eu cynnig i chi. Isod ceir manylion am y systemau penderfynu neu broffilio rydym wedi'u defnyddio, a sut daethpwyd i'r penderfyniad:

Ddim yn berthnasol

Pwy fydd yn gweld eich gwybodaeth bersonol?

Cyngor Dinas Casnewydd yw'r rheolydd data a'r Swyddog Diogelu Data yw:

Rheolwr y Gwasanaethau Digidol
E-bost: information.management@newport.gov.uk
Ffôn: 01633 656656

Gallai rheolwyr data eraill hefyd fod yn gyfrifol am eich gwybodaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Cysylltwch â'r gwasanaeth am fwy o wybodaeth.

Prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth bersonol yw:

Staff o fewn y Gwasanaethau Plant.

Gallen ni rannu eich gwybodaeth o fewn Cyngor Dinas Casnewydd:

Pob adran berthnasol o fewn ein hawdurdod ein hunain a all gynnwys y canlynol;
Timau gwaith cymdeithasol eraill gan gynnwys Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd; Timau Oedolion a Gofal Cymunedol
Gwasanaethau Addysg: gan gynnwys Gwasanaethau Anghenion Addysgol Arbennig, Swyddogion Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu
Gwasanaethau Ieuenctid
Teuluoedd yn Gyntaf
Gofalwyr Ifanc
Diogelwch Cymunedol
Comisiynu a Chontractau
Cyllid
Gwasanaethau Cyfreithiol ac Yswiriant
Gwasanaethau Tai
Iechyd a Diogelwch
Iechyd yr Amgylchedd
Gwasanaeth Strydlun a'r Ddinas (Cwynion a Gwybodaeth)
Gwasanaethau Cludo Teithwyr
Archwilio Mewnol
Polisi a Pherfformiad

Efallai nad yw rhai gwasanaethau yn fewnol i'r awdurdod a gellir eu cwblhau dan gontract felly darperir gwybodaeth i'r gwasanaethau i'w galluogi i gyflawni eu contract a darparu gwasanaethau a nodwyd.

Gallen ni rannu eich gwybodaeth gyda sefydliadau allanol eraill:

Efallai y byddwn yn rhannu gwybodaeth amdanoch chi neu eich teulu gyda sefydliadau partner os oes sail gyfreithlon i wneud hynny, neu lle mae pryderon diogelu yn cael eu codi.

Mae'r sefydliadau hyn yn cynnwys:

* Iechyd - gweithwyr proffesiynol fel meddygon teulu; gwasanaethau bydwreigiaeth; ymwelwyr iechyd; nyrsys ysgol. Lle bo hynny'n berthnasol, gall hyn hefyd gynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol arbenigol a all fod yn ymwneud â chi, eich teulu ac unrhyw unigolyn sy'n byw yn eich cartref ar hyn o bryd, gall hyn gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, ac ati.
* Yr heddlu - gellir gofyn am wybodaeth berthnasol er mwyn gallu gwneud penderfyniadau priodol am eich diogelwch a'ch lles chi, eich teulu ac unrhyw unigolyn arall yn eich cartref. Bydd hyn yn cynnwys datgeliadau llawn o hanes troseddol a dedfrydu.
* Sefydliadau addysgol - gan gynnwys meithrinfeydd, ysgolion, colegau. Bydd y wybodaeth a gesglir yn cynnwys cofnodion presenoldeb a chyflawniad, materion lles ac ymddygiad a pherthnasoedd â chi, eich teulu ac unrhyw berson arall sy'n byw yn eich cartref.
* Asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda chi ar hyn o bryd neu sydd wedi gweithio gyda chi, eich teulu ac unrhyw berson arall sy'n byw yn eich cartref yn y gorffennol - gall hyn gynnwys y Tîm Troseddau Ieuenctid; NSPCC Gwasanaethau Barnardo's; Gwasanaethau Cam-drin Domestig.
* Asiantaethau darparu y byddwn yn comisiynu gwasanaethau ganddynt, er enghraifft Consortiwm Comisiynu Plant Cymru (4Cs).
* Efallai y byddwn yn gofyn i awdurdodau lleol eraill yr ydych wedi byw ynddynt yn y gorffennol ddarparu gwybodaeth am yr ymglymiad a'r gofal a'r cymorth a nodwyd ar gyfer eich plentyn, chi neu'ch teulu er mwyn sicrhau bod gennym ddarlun llawn o'r sefyllfa bresennol a hanesyddol.
* Gwasanaethau eirioli - os yw hyn yn berthnasol i gydymffurfio â chyfrifoldeb cyfreithiol yr awdurdod lleol i sicrhau bod eich plentyn, chi neu eich teulu yn cael cymorth priodol.
* Barnwriaeth.
* Arolygiaeth Gofal Cymru neu arolygiaethau eraill ar draws ffiniau, er enghraifft Y Comisiwn Ansawdd Gofal; Yr Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd; Arolygiaeth Gofal (yr Alban).
* Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
* Tîm Dyletswydd Brys (TDB) De-ddwyrain Cymru (EDT)
* Yn amodol ar brotocolau a chytundebau rhannu gwybodaeth llym gellir rhannu'r wybodaeth a gasglwn ag unrhyw un o'r gweithwyr proffesiynol amlasiantaeth sy'n gweithio gyda chi a'ch teulu neu'r rhai y byddwn yn atgyfeirio atynt ar eich rhan.
* Rhannu eich gwybodaeth â Llywodraeth Cymru - bydd rhywfaint o'r wybodaeth amdanoch chi'n cael ei rhannu â Llywodraeth Cymru, a bydd hyn yn eu helpu i wneud gwaith ymchwil i wella'r gofal a'r cymorth a ddarperir i chi a phobl eraill yng Nghymru. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu'n gyfreithlon a chaiff ond ei defnyddio gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ymchwil i gefnogi busnes swyddogol.

Os nad oes unrhyw bryderon diogelu ni fyddwn fel arfer yn rhannu eich gwybodaeth â sefydliadau heb eich cytundeb chi, fodd bynnag, gall fod amgylchiadau penodol lle byddem yn rhannu heb gytundeb megis lle mae'n ofynnol i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith, er mwyn diogelu diogelwch y cyhoedd, ac mewn perygl o niwed neu sefyllfaoedd o argyfwng. Bydd unrhyw wybodaeth a rennir ond yn cael ei rhannu ar sail angen gwybod gan unigolion priodol.

Weithiau rydym yn defnyddio help arbenigol sefydliadau/cwmnïau eraill i brosesu eich data ar ein rhan. 'Proseswyr data' yw'r cwmnïau hyn. Wrth brosesu eich data, rydym yn defnyddio'r proseswyr data canlynol:

Mae data gwaith gofal yn cael ei gynnal ar System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) System rheoli dogfennau Info@work Northgate

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio'r systemau hyn i brosesu eich data, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost ar frig yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

Manylion unrhyw brosesau o drosglwyddo eich gwybodaeth bersonol yn rhyngwladol:
(os yn berthnasol)

Ddim yn berthnasol

Ceisiadau am wybodaeth

Gallai'r holl wybodaeth a gofnodwyd y mae Cyngor Dinas Casnewydd yn ei chadw fod yn destun ceisiadau yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a'r Ddeddf Diogelu Data.

Os hoffech chi wneud cais am gopi o'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch, gallwch wneud cais cael copi o'n **Ffurflen Gais Gwybodaeth Bersonol** yma:

Information.management@newport.gov.uk

Os hoffech chi gyflwyno Cais Rhyddid Gwybodaeth/Gwybodaeth Amgylcheddol, gallwch gyflwyno eich cais i ni yma:

http://www.newport.gov.uk/cy/Council-Democracy/Transparency/Freedom-of-information.aspx

Eich hawliau

Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i chi. Nodwch nad yw pob un o'r hawliau hyn yn ddiamod a bydd angen i ni ystyried eich cais wedi'i dderbyn. Mae gennych yr hawl i wneud cais:

a) i'ch data gael ei gywiro os yw'n anghywir neu'n anghyflawn;
b) i'ch data gael ei ddileu;
c) i gyfyngu ar eich data'n cael ei brosesu;
d) i arfer eich hawl i drosglwyddo data;
e) i wrthwynebu i brosesu at ddibenion marchnata uniongyrchol, proffilio a phenderfynu awtomataidd.

Ym mhob achos, cyflwynwch eich cais i:

information.management@newport.gov.uk

Gweithdrefn Gwyno
Os nad ydych yn hapus gyda'r ffordd mae Cyngor Dinas Casnewydd yn defnyddio eich data, mae gennych yr hawl i gwyno i ni. Os hoffech chi gwyno, cysylltwch â ni trwy anfon e-bost aton ni yn;
Information.management@newport.gov.uk

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad eich cwyn, gallwch wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Yn gyffredinol, ni alla y Comisiynydd wneud penderfyniad oni bai eich bod wedi dihysbyddu gweithdrefn gwyno'r Cyngor. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,
Wycliffe House, Water Lane,
Wilmslow,
Sir Gaeelleon
SK9 5AF.

Am faint y byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth?

Manylion y cyfnod cadw

Mae gofynion statudol y mae'n rhaid i Gyngor Dinas Casnewydd lynu atynt mewn perthynas â chyfnod cadw cofnodion.

Cofnodion mabwysiadu (gan gynnwys mabwysiadu gan lys-rieni a mabwysiadu heb fod drwy asiantaethau)	100 mlynedd
Cofnodion maethu	Gwrthod neu dynnu cais yn ôl - Byddwn yn cadw eich gwybodaeth yn unol â'n Polisi Cadw a Gwaredu Gwybodaeth, dim ond cyhyd ag y bo angen. Wedi hynny caiff ei dileu neu ei dinistrio. 10 mlynedd o'r dyddiad y terfynir y gymeradwyaeth 25 mlynedd ar ôl cau achos plentyn a faethir yn breifat
Cofnodion Gofal Cymdeithasol Plant (gan gynnwys atgyfeiriadau / asesiadau / gofal a chymorth / adolygiadau achosion difrifol – adolygiadau ymarfer plant)	Naill ai: Tan pen-blwydd y plentyn yn 25 oed; Neu Os yw'r plentyn yn marw cyn ei fod yn 18 oed, am 6 mlynedd o ddyddiad y farwolaeth
Cofnodion Diogelu Plant / Amddiffyn Plant	35 mlynedd
Cofnodion Plant sy'n Derbyn Gofal	Naill ai: Tan pen-blwydd y plentyn yn 75 oed; Neu Os yw'r plentyn yn marw cyn ei fod yn 18 oed, am 15 mlynedd o ddyddiad ei farwolaeth
Cartrefi Plant	Naill ai: Tan pen-blwydd y plentyn yn 75 oed; Neu Os yw'r plentyn yn marw cyn ei fod yn 18 oed, am 15 mlynedd o ddyddiad ei farwolaeth

Bydd y cofnod cyfan ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc yn cael ei